



Bwletin GwE



Diolch Ysgolion Thank You Schools



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Rhaglen Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru

Yn dilyn ein gohebiaeth yn ddiweddar, dyddiedig 21 Ebrill 2021, mae'n bleser gennym rannu dyddiadau'r sesiynau canlynol â chi:

DARNAU MEDDWL AR Y DAITH DDIWYGIO

Cyfle i aelodau tîm GwE gyflwyno cyfres o ddarnau meddwl a luniwyd er mwyn ysgogi trafodaethau ar lefel leol a chefnogi ysgolion gydag agweddau allweddol ar ddiwygio Cwricwlwm i Gymru. Mae GwE yn hynod o ddiolchgar i'r Athro Graham Donaldson am ei gyngor a'i arweiniad wrth lunio'r darnau meddwl hyn.

- Bydd y casgliad o ddarnau meddwl yn ysgogi staff eich ysgol i fyfrio ar yr hyn sydd yn gweithio'n effeithiol, yr hyn sydd angen ei fireinio a'r hyn sydd angen ei newid.
- Mae'r casgliad o ddarnau meddwl yn gofyn i chi feddwl yn ddwys am bwrpas ac amlygu materion yn ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm, arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg ac asesu y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt os ydym ni am wireddu'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y rhaglen ddiwygio.

Dyddiad: Dydd Iau 20 Mai

Amser: 9:15am cyfrwng Cymraeg

10:45am cyfrwng Saesneg

Ewch i G6 i gofrestru.

CYNLLUNIO AR GYFER NEWID CWRICWLWM

Cyfle i aelodau tîm GwE gyflwyno trosolwg lefel uchel o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Ceir llawlyfr i gyd-fynd â'r webinar hon, a bydd y webinar yn cynnig cyfle i:

- Ddeall fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.
- Ystyried y gwahanol fathau o gwricwlwm, a sut y cynrychiolir y cwricwlwm yn ein hysgolion
- Trafod unrhyw gamsyniadau.
- Dechrau deall goblygiadau ffordd newydd o weithio.
- Trafod a chyfeirio at ganllawiau'r cwricwlwm.

Dyddiad: Dydd Mercher 26 Mai

Amser: 1:15pm cyfrwng Cymraeg

2:30 cyfrwng Saesneg

Ewch i G6 i gofrestru.

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#). Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

13/05/2021 - 28/05/2021

DYDDIAD CYFRWNG

Gweminar Gwyddoniaeth Gynradd	17/05/2021	Dwyieithog
Darnau Meddwl ar y Daith Ddiwygio	20/05/2021	Cymraeg
Darnau Meddwl ar y Daith Ddiwygio	20/05/2021	Saesneg
ANG - Gweithdy Diwrnod 3 Asesu ar gyfer Dysgu - Prosiect Shirley Clarke (cyfrwng Cymraeg)	25/05/2021	Cymraeg
ANG - Gweithdy Diwrnod 3 Asesu ar gyfer Dysgu - Prosiect Shirley Clarke (cyfrwng Saesneg)	26/05/2021	Saesneg
Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm	26/05/2021	Cymraeg
Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm	26/05/2021	Saesneg
ANG – Gweithdy Diwrnod 3 Asesu ar gyfer Dysgu – Prosiect Shirley Clarke (dwyieithog)	27/05/2021	Dwyieithog
ANG - Gweithdy Diwrnod 3b: Cymhwysedd Digidol i ANG (cyfrwng Cymraeg)	27/05/2021	Cymraeg
ANG - Gweithdy Diwrnod 3b: Cymhwysedd Digidol i ANG (cyfrwng Saesneg)	28/05/2021	Saesneg


Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Mae **Cylch 3** y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym Medi 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **18 Mehefin 2021**.

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio.

Cewch ragor o fanylion yn y [fideo](#).



Cyfleoedd gyda GwE

Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant



CYFLEOEDD AM SWYDDI PARHAOL A SECONDIADAU

Croesawir ceisiadau o'r sector cynradd, uwchradd, arbennig, UCD ac arbenigwr pwnc mewn Saesneg (Uwchradd).

Mae'n gyfnod cyffrous o ddiwygio yng Nghymru ac mae paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn flaenoriaeth i'r rhanbarth.

Bydd yr ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio mewn tîm i gefnogi ysgolion ar draws y continwrm 3 i 16. Bydd(ant) yn gweithio gydag ysgolion i gefnogi pob agwedd ar wella ysgolion gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth gydag amrywïol randdeiliaid

DYDDIAD CAU: 10.00AM, DYDD LLUN, 24 MAI 2021

(Dyddiadau cyfweld: 27-28/05/21)

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Marc Berw Hughes, Uwch Arweinydd: Cynradd (07969324329 /

marcberwhughes@GwEGogledd.Cymru) neu Elfyn Vaughan Jones, Uwch Arweinydd: Uwchradd (07557759240 /

elfynjones@GwEGogledd.Cymru).

Am ragor o fanylion [cliciwch yma](#). I ymgeisio, dilynwch y [ddolen hon](#).



Newyddion a Gwybodaeth GwE

Y Brifysgol Agored TAR Uwchradd

MEWN MATHEMATEG, CYMRAEG, SAESNEG A GWYDDONIAETH

Mae ceisiadau'n dal i fod ar agor ar gyfer TAR Uwchradd y Brifysgol Agored mewn Mathemateg, Cymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth. Gellir astudio cyrsiau yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae llwybrau cyflogedig a rhan-amser ar gael. Mae cyfraniad ariannol o hyd at 55% ar gael i ysgolion uwchradd sy'n cymeradwyo myfyriwr cyflogedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn <http://www.open.ac.uk/courses/choose/cymru/tar> neu cysylltwch â ceriwilliams3@gwegogledd.cymru

Mae'r Brifysgol Agored yn cynnal Diwrnod Agored ar-lein ar 18 Mai am 6pm i unrhyw un a allai fod â diddordeb mewn dysgu mwy am y TAR – dilynwch y ddolen i gofrestru [Diwrnod Agored TAR Uwchradd](#)



Gweminar Ddiweddar Gynradd

GWYDDONIAETH

Prynhawn Llun 17 Mai, 3:45pm tan 5pm
Addas i Arweinwyr ac Athrawon Gwyddoniaeth

Adnoddau "Tasgau sy'n Tanio"

Arbrofi gyda Cwricwlwm 2022

Adnodd Explorify

Bwrseriaeth Marc Safon PSMQ

Gwaith PSTT yn y rhanbarth

Cynllun 'Great Science Share'

Cyflwyniadau dwyieithog gan athrawon ac ymgynhorwyr profiadol
Cofrestrwch drwy G6 er mwyn derbyn y cyswllt Zoom "Gweminar Gwyddoniaeth Gynradd"



Ysgrifenyddiaeth Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC) - menter Hinsawdd Niwtral Nawr

Y LLWYBR I HINSAWDD NIWTRAL: YR HANFODION I YSGOLION

Ymunwch â ni ar 12 Mai pan fyddwn ni'n croesawu Miguel Naranjo a Fernanda Castro o Ysgrifenyddiaeth yr UNFCCC.

Amser: 15:30 – 16:30 BST

Llwyfan: Digwyddiad Rhithwir - [Dolen YouTube](#)

Amcan: Dangos camau ymarferol y gall ysgolion eu cymryd i gyfrifo eu hól troed carbon, (gan gynnwys defnyddio cyfrifiannell wedi'i symleiddio a ddatblygwyd gan Ysgrifenyddiaeth yr UNFCCC), ei leihau a gwneud iawn amdano.

Mae'r weminar hon ar gyfer ysgolion yn benodol, ac yn ystyried eu cyd-destun a'r adnoddau sydd ar gael.

Google for Education - Datblygiad Proffesiynol

Mae Google wedi rhyddhau ei raglen hyfforddiant a datblygiad sydd yn arbennig ar gyfer athrawon Cymru. Mae'n addas i ddefnyddwyr profiadol Google for Education a hefyd i athrawon sy'n dymuno dysgu mwy am y llwyfan dysgu digidol. [Cliciwch yma](#) i weld beth sydd ar gael.

Mae hefyd wedi rhyddhau cyfres o sesiynau yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd drwy ddefnyddio rhaglenni Google yn ogystal â sesiynau yn manylu ar agweddau ar y Dyniaethau. [Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth.

Google for Education



Dyfodol Byd-eang GwE - ITM / leithoedd Rhyngwladol

SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD

- Newyddlen Dyfodol Byd-eang GwE

[Newyddlen Cynradd](#) | [Newyddlen Uwchradd](#)

- Routes Cymru:**

Adnoddau addysgu:

www.worldoflanguages.co.uk : gêm am ddim sy'n cynnwys naw gweithgaredd er mwyn dathlu ieithoedd y byd, sut maent yn cysylltu â'i gilydd a sut mae geiriau na ellir eu cyfieithu yn rhan annatod o ddiwylliant.

SECTOR UWCHRADD

Routes Cymru: Safon Uwch

- Dosbarthiadau Meistr UG/Uwch:**

Bydd *Routes Cymru* yn rhyddhau pedwar dosbarth meistr UG/Uwch yn ychwanegol at y rhestr wreiddiol a gyhoeddwyd . Gallwch gofrestru ar gyfer Dosbarth Meistr ar 'La Rafle', 'Das Pferd auf dem Balcon', 'La Classe (Entre les murs)' a 'Como agua para chocolate' ar ein gwefan: [Digwyddiadau – Llwybrau at Ieithoedd Cymru Routes into Languages Cymru](#).

- Adnoddau Dysgu**

Cambridge Collaborative A-level Resources for Languages (CCARL): Cyfres o fideos byrion yn yr iaith darged ar destunau Ffrangeg ac Almaeneg Safon Uwch megis *La Haine*, *Kiffe kiffe demain*, *Das Leben der Anderen* a *Barbara*. **Mae'r adnoddau ar gael ar eu sianel YouTube**

- Mentora ITM : Adnoddau CA3+**

Prifysgolion <https://mflmentoring.padlet.org/mflmentoring/prifysgolion>

Sesiynau Blasu <https://mflmentoring.padlet.org/mflmentoring/SesiynauBlasu>

- Business Language Champions**

Calendr digwyddiadau:

Llawer o gyfleoedd cyffrous, gwahanol ac ysbrydoledig i'ch myfyrwyr.

* *Operation Language* i Flynyddoedd 12 a 13 - 14 Mai

Am ragor o wybodaeth, i gofrestru eich lle neu i weld y rhestr digwyddiadau ewch i'r [wefan Digwyddiadau](#)

Adnoddau STEM - Diweddariad Ebrill 2021

Ydych chi'n chwilio am ffordd gyflym a hawdd o gael gwybod am adnoddau am ddim i'ch cefnogi i addysgu gwyddoniaeth a thechnoleg? Mae GwE yn gweithio gyda STEMpowered Learning i roi fersiwn ddwyieithog i ysgolion o'r diweddariad rheolaidd hwn ar adnoddau. Cofrestrwch ar gyfer ein taenlen fisol am ddim yma: <http://eepurl.com/dMy9VQ>

Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).


Bydd **Kaydee Owen** (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

Trefnwch amser un i un ar-lein: <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

- 8 Mehefin

I gael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuoel hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwyliwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).



Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Wythnos Ffocws GDD 2021

Cynhaliwyd Wythnos Ffocws GDD ym mis Mawrth 2021, digwyddiad cenedlaethol i ddathlu, rhannu a llywio'r defnydd o GAD.

Roedd yr wythnos ddysgu a rhannu hon yn dathlu gwaith o bob rhan o Gymru parthed y ddarpariaeth a chynnydd dysgwyr difreintiedig trwy wariant GDD wedi'i dargedu.

Roedd yr wythnos wedi ei chynllunio i dynnu sylw at bwysigrwydd cyplysu'r GDD ag ymyriadau sy'n seiliedig ar ymchwil a datblygiad mewn arferion Addysgu a Dysgu er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr difreintiedig a chymryd rhan mewn dysgu wyneb yn wyneb.

Yn ystod yr wythnos, cyflwynodd y consortia, ysgolion a lleoliadau a phartneriaid proffesiynol ystod o weithdai datblygiad proffesiynol, trafodaethau a sgysiau.

[Cliciwch yma](#) i gael mynediad i gyflwyniadau siaradwyr allweddol ynghyd â'r adnoddau.



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Mae Ymsefydlu ANG yng Nghymru yn newid...

DYLAI POB YSGOL FOD YN BAROD YM MIS MEDI 2021 AR GYFER ANG

[Cliciwch yma](#) i weld y camau sy'n rhaid i bob ysgol ei dilyn er mwyn sefydlu ANG o fis Medi 2021 ymlaen.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â jeuanjones@gwegogledd.cymru



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN)

Drwy Lywodraeth Cymru, mae hyfforddiant a ddatblygwyd gan Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) bellach ar gael i holl uwch dimau arweinyddiaeth ysgolion Gogledd Cymru. Bydd 'Supporting Schools in Challenging Racism'/'Cefnogi Ysgolion i Herio Hiliaeth' yn eich helpu chi i ddatblygu gallu staff a myfyrwyr i weithio tuag at gyflawni'r nod o oddef dim hiliaeth mewn addysg yng Nghymru.

Bwriadwyd i'r hyfforddiant fod wyneb yn wyneb, yn hyfforddi a datblygu'r aelodau ond gyda chyfyngiadau COVID-19 bu'n rhaid i'r Rhwydwaith ddarparu'r adnodd ar-lein.

Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro i:

- Feithrin hyder i adnabod a delio gydag agweddau hiliol
- Gwella gallu athrawon a rheolwyr addysg i alluogi eu myfyrwyr i adnabod a herio hiliaeth.
- Rhoi modd i athrawon a rheolwyr gorffori cydraddoldeb hiliol yn y cwricwlwm.

Am fwy o wybodaeth ac i fynd at yr hyfforddiant, [cliciwch yma](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Cylchlythyr Gwanwyn Technocamps - Newsbyte

Mae rhai digwyddiadau a chystadlaethau cyffrous ar y gweill y gallwch ddarllen amdanynt [yma](#). Yn y cyfamser, dilynwch ei sianel cyfryngau cymdeithasol ([@technocamps](#)).



Cronfa Adfer Dysgu Creadigol

Mae'r rhaglen dysgu creadigol drwy'r celfyddydau yn darparu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghymru i'w galluogi i weithio gyda'u dysgwyr a'u hathrawon, ochr yn ochr ag ymarferwyr creadigol, i ganolbwyntio ar adfywio, ail-greu a chysylltu eto â dysgu; gan archwilio ffyrdd chwareus a dychmygus o ddysgu lle mae'r ffocws yn dynn ar lesiant dysgwyr ac athrawon. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5pm, ar 17 Mehefin 2021. Am fanylion pellach dilynwch y ddolen: <https://arts.wales/cy/cronfa-adfer-dysgu-creadigol>



Cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg 2021-2022

DARPARIAETH PRIFYSGOL BANGOR

MAE'R CYRSIAU AR GYFER ATHRAWON YSGOLION CYFRWNG SAESNEG

Manylion llawn ar gael [yma](#).

I gofrestru, cysylltwch â'ch awdurdod lleol:

YNYS MÔN: OwenDavies@ynysmon.gov.uk

SIR DDINBYCH: gareth.williams@denbighshire.gov.uk

CONWY: Diane.Evans@conwy.gov.uk

SIR Y FFLINT: rhian.roberts@flintshire.gov.uk

WRECSAM: Buddug.SelwayJones@wrexham.gov.uk



Y Cliciador

Mae'r rhifyn diweddaraf o [Y Cliciador](#) a [Clic-It Cymru](#) ar gael yn awr ar wefan HWB.



Gweithdai Sbarduno

I DDISGYBLION Y CYFNOD SYLFAEN A CHYFNOD ALLWEDDOL 2

[Dyma i chi'r arlwy o weithdai sydd gan Sbarduno i'w cynnig](#) i ysgolion Gogledd Cymru hyd at wyliau'r Sulgwyn (28/05/21). Mae'r gweithdai ar-lein yn rhoi cyfle i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen neu Gyfnod Allweddol 2 gael sesiwn awr o hyd er mwyn cyflawni arbrofion syml a hwyliog, gan ddatblygu sgiliau megis cydweithio, gweithio'n annibynnol a datrys problemau a dysgu am Wyddoniaeth syml o ddydd i ddydd.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#). Cyfeiriwch unrhyw gwestiynau at claire@Sbarduno.com



Digwyddiad Meddylgarwch Cymru: Cefnogi Meddylgarwch mewn Addysg yng Nghymru

Mae ein digwyddiad Meddylgarwch Cymru nesaf ar 12 Mai 2021, 7-8.30pm, a bydd yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ofalgar mewn addysg. Cawn gyfle i drafod y ddogfen newydd gan y Fenter Meddylgarwch sef Gweithredu Ymwybyddiaeth Ofalgar mewn Ysgolion - Canllaw yn seiliedig ar Dystiolaeth, gydag un o'r cyd-awduron, yr Athro Katherine Weare.

Gallwch ddarllen y canllaw yma (cadwch olwg am enghreifftiau o Gymru):

<https://www.themindfulnessinitiative.org/implementing-mindfulness-in-schools-an-evidence-based-guide>

A gallwch gofrestru ar gyfer y digwyddiad yma:

<https://www.eventbrite.co.uk/e/supporting-mindfulness-in-education-in-wales-tickets-150805504323?utm-campaign=social%2Cemail&utm-content=attendeeshare&utm-medium=discovery&utm-source=strongmail&utm-term=checkoutwidget>

Ystyriwch gofrestru ar restr bostio *Mindfulness Wales*: <http://eepurl.com/gLixsb>

Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol Cymru

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg am glywed gennych am faterion megis llwyth gwaith, lles a'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer dysgu proffesiynol. Dilynwch y [ddolen hon](#) i'r arolwg.



Inspire Maths: Modelu Bar

DEFNYDDIO LLUNIADU ENGHREIFFTIOL FEL ADNODD GWERTHFAWR I GRYFHAU A DYFNHAU DEALLTWRIAETH DISGYBLION O FATHEMATEG, GAN GANOLBWYNTIO AR RUGLDER A MEISTROLAETH YN CA1 A 2.

Edrychwch ar ddull holi a stilio a ddefnyddir yn Singapore i ddysgu ac addysgu mathemateg.

Mwy o wybodaeth ar gael [yma](#). [Gwybodaeth Saesneg yn unig]



post@gwegogledd.cymru

